

Bwletin Awdurdod S4C - Ebrill 2001

CYFARFOD AGORED

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Fawrth, 27 Mawrth 2001, yn Neuadd Gwyn, Castell Nedd lle bu oddeutu 30 o'r cyhoedd yn bresennol.

Yn ogystal â Chadeirydd yr Awdurdod, Elan Closs Stephens, bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y drafodaeth hefyd. Roedd Aelodau eraill yr Awdurdod hefyd yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i gael sgwrs anffurfiol â'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfod. Ymhlith y materion a drafodwyd yn y cyfarfod roedd:

Rhaglenni Chwaraeon

Cododd aelod o'r cyhoedd ddau fater yn ymwneud â chwaraeon: y cyntaf am griced a'r llall am bêl-droed yr Eidal. Ar y criced dywedwyd bod gan S4C fwy o hysbysebion na Channel 4. Atebodd Huw Jones, fod S4C fel arfer yn dilyn patrwm hysbysebion Channel 4 ac felly roedd yn anodd deall sut y gallai hyn ddigwydd, er hynny, fe fyddai yn codi'r mater gyda'r adran gyflwyno i edrych beth oedd y sefyllfa. Gwahoddwyd yr aelod o'r cyhoedd i adael ei enw a'i gyfeiriad a byddai S4C yn ymateb yn uniongyrchol iddo ar y pwynt hwn.

Cyfeiriodd aelod o'r cyhoedd hefyd at y sefyllfa parthed y ffaith nad oedd S4C bellach yn dangos gemau pêl-droed yr Eidal a ddangosir gan Channel 4 ac mai dim ond *Sgorio* oedd yn cael ei gynig gan S4C. Atebodd Huw Jones fod natur gwasanaeth S4C yn golygu bod yn rhaid cyfaddawdu ar y rhaglenni roedd yn ei chynnig o wasanaeth Channel 4. Roedd S4C wedi'i sefydlu i ddarparu rhaglenni Cymraeg gan ddarparu rhaglenni Channel 4 pan nad oedd yn darparu rhaglenni Cymraeg. Wrth reswm felly, nid oedd yn bosibl i ddangos holl raglenni Channel 4. Tra nad oedd pêl droed yr Eidal yn cael ei ddangos teimlwyd bod *Sgorio* yn cynnig dewis arall. Awgrymwyd y gallai S4C ddarparu pêl-droed yr Eidal yn ystod y nos/oriau mân y bore, byddai hyn o leiaf yn cynnig cyfle i bobl dapio'r rhaglenni. Dywedwyd y byddai S4C yn edrych ar y syniad a cheisio sefydlu faint o alwad oedd yna ar gyfer y gwasanaeth hwn.

Yn fwy cyffredinol dywedwyd y byddai teledu digidol yn y pendraw ar gael i bawb, pan fyddai teledu analog yn cael ei ddiffodd, ac y byddai hyn yn goresgyn y problemau uchod. Byddai S4C yn cynnig gwasanaeth mwy helaeth yn y Gymraeg tra byddai Channel 4 ar gael i bawb. Yr oedd hi wrth gwrs yn bosibl i dderbyn teledu digidol lloeren yn awr. Roedd yn costio rhyw gan punt am yr offer heb orfod tanysgrifio i Sky.

Cyflwyniadau i mewn i raglenni

Cwynodd aelod o'r cyhoedd bod hyd y rhediad i mewn i raglenni llawer rhy hir ac yn fater o ddifflastod mawr. Rhoddwyd y rygbi ar nos Sadwrn a *Sgorio* fel esiamplau. Dywedwyd nad oedd y mater hwn erioed wedi'i godi mewn cyfarfod cyhoeddus wedi'i gynnal gan S4C. Roedd hwn yn bwynt diddorol y byddai S4C yn edrych i mewn iddo.

Byd Pws

Lleisiodd aelod o'r cyhoedd y farn bod agwedd Dewi Pws tuag at frodorion y gwledydd roedd yn ymweld â hwy yn aml yn ddiraddiol. Teimlwyd bod ei hiwmor wedi croesi'r ffin o'r hyn oedd yn dderbyniol. Rhoddwyd y rhaglen ar wlad y Lap fel esiampl benodol. Roedd hyn yn siomedig mewn rhaglen a oedd ffordd arall yn rhaglen dda dros ben. Atebodd Elan Closs Stephens fod hyn yn ddiddorol iawn i'w glywed gan nad oedd S4C wedi gweld Dewi Pws yn nawddoglyd ond fel rhywun oedd yn ymlaciedig ei arddull. Holwyd os oedd gweddill y gynulleidfa yn teimlo fod Dewi Pws yn nawddoglyd. Cafwyd ymateb fod y rhaglen i fod yn fentrus gan dderbyn fod Dewi Pws yn gymeriad ac yn berson oedd yn gallu cyfathrebu'n dda â phobl mewn gwahanol wledydd. Teimlwyd bod *Byd Pws* yn un o'r rhaglenni gorau i'w gweld ar S4C. Dywedodd aelod arall o'r cyhoedd ei fod yn mwynhau *Byd Pws* ac roedd yn cymharu'n dda gyda rhaglenni Saesneg. Er hynny, wrth ystyried y feirniadaeth newydd ei chyflwyno a chan feddwl yn ôl dros y rhaglenni efallai yr oedd yna ambell elfen nawddoglyd i sylwadau Dewi Pws. Nododd Elan Closs Stephens y sylwadau a wnaethpwyd a dywedodd y byddai S4C yn sicr yn mynd yn ôl i edrych ar y sefyllfa.

‘Yr Un Hen Wynebau’

Roedd aelod o'r cyhoedd yn feirniadol o'r ffaith fod yr un actorion yn cael eu gweld mewn rhaglenni S4C. Rhoddwyd yr esiampl ei fod yn arbennig o anffodus fod yr un actor i'w weld yn *Ponteifi* a'r rhaglen oedd yn dilyn syth ar ei ôl, sef *Talcen Caled*. Awgrymwyd nad oedd y sefyllfa hon yn digwydd ar deledu Saesneg. Nododd Huw Eirug y pwynt a wnaethpwyd a chydnabuodd ei bod hi wedi bod yn anffodus bod y ddwy raglen a gyfeiriwyd atynt wedi'u hamserlennu fel bod un yn dilyn y llall. Er hynny, anghytunwyd gyda'r pwynt mwy cyffredinol ynglyn â theledu Saesneg a rhoddwyd esiamplau o actorion oedd i'w gweld yn aml ar y sianelau eraill ym Mhrydain.

Rhaglenni Cwis a Chomedi

Teimlodd aelod o'r cyhoedd fod y rhaglenni cwis a chomedi ar S4C yn wan iawn. Dywedodd Huw Eirug fod hwn yn bwnc oedd yn codi ymhob cyfarfod agored. Cydnabuwyd nad oedd S4C yn llwyddo yn y meysydd hyn, yn arbennig comedi, ond dywedwyd bod y Sianel yn credu bod arni ddyletswydd i gadw ati yn hytrach na rhoi'r ffidil yn y to. Gobeithiwyd y byddai S4C trwy ddyfalbarhau yn cael llwyddiant ar ryw bwynt ac yr oedd Huw Eirug yn fwy hyderus am y dyfodol nag yr oedd wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf.

Mor belled ag oedd rhaglenni cwis yn y cwestiwn dywedodd Huw Eirug fod S4C wedi torri i lawr ar y nifer o'r rhaglenni o'r math yma. Y neges roedd gwylwyr yn danfon at S4C oedd nad oeddynt am weld fersiwn Cymraeg o *Big Brother* er enghraifft – os oeddynt yn dymuno gweld *Big Brother* byddent yn gwylio'r fersiwn gwreiddiol a gynigiwyd gan Channel 4. Roedd yr un agwedd yn gymwys ar gyfer rhaglenni cwis eraill megis *Who Wants To Be A Millionaire*, *The Weakest Link*, *Blind Date*, ac ati. Roedd hyn yn golygu, felly, bod yn rhaid i S4C ddod o hyd i fformatiau cwis ei hun. Ni fyddai S4C yn gwneud rhaglenni cwis felly oni bai fod yna apêl ganddynt i wylwyr y Sianel.

Rhaglenni Materion Cyfoes

Dechreuodd aelod o'r cyhoedd trwy ddweud ei bod hi'n credu bod y *Newyddion* yn darparu gwasanaeth da iawn gyda chydbwysedd rhwng eitemau ar faterion Cymreig, Prydeinig a rhyngwladol. Er hynny, teimlwyd bod safon rhaglenni megis *Y Byd ar Bedwar* a *Taro Naw* wedi disgyn. Awgrymwyd bod y newyddiaduraeth yn sâl, bod yna ddiffyg ymchwil ac nad oedd y cyflwyno a'r cwestiynu yn mynd i mewn i ddigon o fanylion. Roedd y deunydd ar gael ond nid oedd y rhaglenni mor raenus ag y gallent fod. Rhoddwyd y gymhariaeth fod y rhaglenni *Week In Week Out* a *Wales This Week* o safon uwch. Nododd Huw Jones y sylwadau a wnaethpwyd a dywedodd fod y gymhariaeth rhwng y rhaglenni Cymraeg a Saesneg yn ddiddorol gan fod *Taro Naw* yn dod o'r un stabl ag oedd *Week In Week Out* ac yr oedd yr un peth yn wir am *Y Byd ar Bedwar* a *Wales This Week*. Er hynny, byddai S4C yn rhoi sylw i'r pwyntiau oedd wedi'u gwneud.

Hefyd ar y pwnc o raglenni materion cyfoes teimlwyd bod yna ddiffyg o raglenni trafod ar S4C ac yn arbennig bod y Cymry di-Gymraeg yn aml yn colli allan ar raglenni faterion cyfoes oherwydd nad oedd is-deitlau ar gael. Byddai mwy o bobl di-Gymraeg yn gallu elwa ar y math yma o raglenni pe bai is-deitlau arnynt. Teimlwyd hefyd nad oedd yna ddigon o sylw yn cael ei roi i faterion y Cynulliad yn gyffredinol. Atebodd Elan Closs Stephens bod y mwyafrif o raglenni S4C ag is-deitlau iddynt trwy'r gwasanaeth teletestun 888 ond cydnabuodd nad oedd rhaglen *Manifesto*, er enghraifft, ag is-deitlau iddi. Ar y pwynt mwy cyffredinol, dywedodd bod darlledu rhaglenni Cymraeg am ond ryw bedair awr y diwrnod yn cyfyngu ar y maint o sylw y gellid ei roi i raglenni materion cyfoes a digwyddiadau'r Cynulliad. Ychwanegodd Huw Jones fod S4C yn darparu y gyfres *Pawb a'i Farn* (sef rhaglen drafod materion cyfoes) dwywaith y flwyddyn gyda rhediad o 8-12 raglen ar y tro. Roedd yna ddymuniad i gynnig rhagor ond roedd rhaid cydnabod bod hi'n anodd i ddod o hyd i ddigon o siaradwyr plattform o safon uchel oedd yn gallu siarad Cymraeg i gynnal rhediad hirach o'r gyfres. Soniodd yr aelod o'r cyhoedd hefyd fod yna ddiffyg adrodd ar yr hyn oedd yn digwydd yn Ewrop. Dywedodd Huw Jones fod S4C yn darlledu'r gyfres *Ewropa* oedd yn ymddangos ar brynawn Sul ac ychwanegodd y dylid cydnabod mai BBC Cymru, a oedd yn darparu'r rhaglen hon, oedd y cyntaf (ar wahân i Lundain) i sefydlu gohebydd Ewropeaidd ym Mrwsels.

Awgrymodd aelod arall o'r gynulleidfa, fod y bobl oedd yn cyfweld ar raglenni cyfoes yn rhy ymosodol ar wleidyddion a gwestai eraill. Awgrymwyd ymhellach y byddai dadl a thrafodaeth llawer mwy call yn cael ei gynnal pe bai'r dull o holi yn llai ymosodol. Atebodd Huw Jones ei fod yn credu fod holi caled yn hollol dderbyniol mewn byd lle'r oedd gwleidyddion bellach yn cael eu hyfforddi mewn sut i ddelio â'r cyfryngau a chyfweliadau ac nid oedd unrhyw beth o le wrth i'r holwyr bwysu i gael ateb i'w cwestiynau.

Pobol y Cwm

Holodd aelod o'r cyhoedd paham nad oedd *Pobol y Cwm* wedi cyfeirio tuag at yr helynt traed a genau, nid oedd unrhyw sôn wedi bod amdano yn yr wythnosau diwethaf. Tra'n cydnabod bod rhaglenni wedi'u recordio o flaen llaw, gofynnwyd onid oedd yn bosibl i ail-recordio elfennau ohonynt i gydnabod yr hyn oedd yn digwydd. Dywedwyd bod *The Archers* ar Radio 4 er enghraifft yn delio â'r pwnc. Soniodd person arall ei bod yn credu bod *Pobol y Cwm* yn ceisio efelychu *Coronation Street*. Yn aml roedd storïau tebyg yn ymddangos yn *Pobol y Cwm*. Roedd yna deimlad hefyd bod gorfod darparu rhaglen pum diwrnod yr wythnos yn ormod i'r cynhyrchwyr ymdopi ag ef ac yr oedd y storïau yn cael eu tynnu allan gormod. Nodwyd y pwyntiau a wnaethpwyd a dywedodd Elan Closs Stephens y byddai'r Sianel yn cyfleu'r negeseuon hyn i'r BBC, sef y corff oedd yn darparu'r gyfres sebon hon.

Cerddoriaeth Cefndirol

Cwynodd aelod o'r gynulleidfa fod cerddoriaeth cefndirol yn amharu ar raglenni a rhoddwyd y rhaglen *Llafur Cariad* fel esiampl. Nododd Huw Eirug y pwynt a wnaethpwyd a dywedodd mai'r hyn a geisiwyd fel arfer oedd rhoi cerddoriaeth cefndirol i geisio cyfrannu at naws y rhaglen. Er enghraifft, roedd yn ymwybodol bod cynhyrchwyr *Llafur Cariad* wedi ceisio defnyddio cerddoriaeth wahanol i geisio cydfynd â ac i gyfleu naws y gwahanol gyfnodau yn ystod y gyfres. Awgrymodd efallai taw'r broblem oedd nid cerddoriaeth cefndirol fel y cyfryw ond y lefel sain a ddefnyddiwyd ar ei gyfer.

Rhaglenni Diwylliannol a Chorau Meibion

Teimlodd aelod o'r cyhoedd fod yna ddiffyg sylw yn cael ei roi i gorau meibion ar S4C a hefyd bod yna rai corau meibion, yn enwedig y rhai di-Gymraeg, ddim yn cael cyfle o gwbl i gael sylw. Atebodd Huw Eirug fod S4C wedi darlledu mwy o ganu corau meibion nac unrhyw ddarlledwr arall yng Nghymru. Er hynny, nid oedd wedi darlledu cymaint yn ddiweddar. Roedd sawl rheswm dros hynny, ac un ohonynt oedd bod y Sianel yn ceisio edrych ar wahanol ffyrdd o fynegi cerddoriaeth. Yn benodol, roedd yn ceisio edrych am ddigwyddiadau oedd yn cynnig cyfle i wahanol artistiaid i gymryd rhan. Cyfeiriwyd at y gyfres *Gwahoddiad* a ddarlledwyd yn y gorffennol. Dywedwyd bod profiad o'r gyfres hon, a oedd yn gyfres dda, wedi dangos bod gwylwyr yn barod i wyllo, ac yn mwynhau, cyngerdd 'one off' ond nid oeddynt mor awyddus i wyllo cyfres gyfan. Cyn belled ag oedd y pwynt ynglyn â chorau meibion di-Gymraeg yn y cwestiwn, cyfeiriwyd at y ffaith fod yna nifer o gantorion di-Gymraeg mewn corau meibion Cymraeg oedd yn llwyddo dysgu i ganu caneuon, emynau a darnau corawl yn y Gymraeg. Roedd gan S4C ddyletswydd tuag at ddarlledu yn y Gymraeg, yr oedd yn cymryd o ddifrif. Awgrymwyd i'r cyfrannwr o'r gynulleidfa os oedd hwn yn fater yr oedd yn teimlo'n gryf yn ei gylch y dylai ei godi gyda'r BBC neu HTV.

Heno

Roedd aelod o'r gynulleidfa o'r farn fod yna ormod o Saesneg ar y rhaglen *Heno*. Dywedodd Huw Eirug y byddai'n anghytuno â'r farn hynny. Roedd *Heno* wedi datblygu ac esblygu ers pan ddechreuodd y gyfres blynnyddoedd yn ôl a theimlodd yn arbennig bod unrhyw ddefnydd o Saesneg dros y flwyddyn ddiwethaf â chyfiawnhad golygyddol iddo. Roedd hefyd angen cadw mewn cof swyddogaeth y rhaglen, sef i geisio denu i mewn gwylwyr lle nad oedd eu Cymraeg mor gyfoethog â rhai pobl eraill. Nid oedd hynny yn golygu defnyddio Saesneg o angenrheidrwydd. Gofynnwyd i'r person a gododd y pwynt i wyllo *Heno* dros yr wythnos nesaf ac fe'i gwahoddwyd, os oedd yn dal i gredu bod yna ormod o Saesneg ynddi i ysgrifennu at Huw Eirug ac y gallent drafod y pwnc ymhellach. Roedd yna aelod o'r tîm oedd yn gyfrifol am gynhyrchiad *Heno* yn y gynulleidfa ac ategodd yr hyn a ddywedwyd gan Huw Eirug ynglyn â'r newid yn y defnydd o Saesneg yn ystod y rhaglen dros y flwyddyn ddiwethaf. Cyfeiriodd at y naw mis diwethaf yn benodol a dywedodd taw dim on 18 munud o Saesneg a gafwyd yn y cyfnod hwnnw.

Cyfeiriodd aelod arall o'r gynulleidfa at burdeb iaith y cyflwynwyr. Er enghraifft, cwynodd am y defnydd o'r gair 'lyfli' yn hytrach na 'hyfryd'. Atebodd Huw Jones trwy ddweud ei bod yn anodd i lunio rhestr o eiriau derbyniol ac annerbyniol i'w defnyddio. Er enghraifft, byddai geiriau oedd yn annerbyniol i'w defnyddio 50 mlynedd yn ôl bellach yn cael eu hystyried fel geiriau derbyniol. Roedd angen bod yn ofalus ynglyn â dweud wrth bobl beth oedd ac nad oedd yn dderbyniol.

Dywedodd person arall fod pobl yn dod o wahanol ardaloedd gyda thafodieithoedd gwahanol a dylid parchu y gwahaniaethau hynny. Yn ogystal, cydnabuwyd cyfraniad cyfres fel *Pam fi Duw*. Roedd hon yn un o'r cyfresi gorau roedd S4C yn ei chynhyrchu. Efallai fod rhai yn ei beirniadu oherwydd y maint o Saesneg ynddi ond os oedd hynny yn denu pobl at y Sianel a'r Gymraeg na fyddent yn troi atynt ffordd arall, credwyd bod hyn yn dderbyniol felly.

Y Cymry Cymraeg a'r Cymry Di-Gymraeg

Soniodd aelod o'r gynulleidfa ei fod yn cofio sefydliad S4C a'i gefnogaeth o'r mudiad i'w sefydlu. Er hynny, teimlwyd nad oedd y Sianel wedi symud ymlaen o'r dyddiau cynnar hynny. Teimlwyd bod yna dal i fod paranoia ymhlith y Cymry Cymraeg a oedd yn arwain at ddifreiniaid y Cymry di-Gymraeg. Er enghraifft, mewn rhaglenni materion cyfoes, oherwydd mai dim ond barn y Cymry Cymraeg a glywir roedd hyn yn golygu nad oedd safbwynt y Cymry di-Gymraeg yn cael ei ystyried. Holwyd os oedd S4C dim ond yn gwasanaethu y Cymry Cymraeg oherwydd roedd hyn yn achosi anghydbwysedd oedd yn difreinio.

Atebodd Elan Closs Stephens trwy ddweud mae'r gwirionedd oedd mae 'ie' dyletswydd S4C trwy ddeddf wlad oedd i ddarparu gwasanaeth i'r Cymry Cymraeg. Cydnabuodd er hynny bod y pwynt wedi'i godi yn un anodd a sensitif i bawb. Awgrymodd efallai mai'r hyn yr oedd yn cael ei gyffwrdd arno oedd y diffyg o wasanaeth cynhwysfawr Cymreig yn y Saesneg. Yr oedd HTV yn darparu 11 awr o raglenni a deallwyd bod y BBC nawr yn symud tuag at ddarparu dwy awr y diwrnod ar BBC2 Cymru. Efallai nad oedd hynny yn llwyddo i ddod â'r Cymry Cymraeg a di-Gymraeg yn union at ei gilydd ond o leiaf roedd yn fodd i'r bobl di-Gymraeg gael fwy o raglenni Cymreig Saesneg nag oedd ganddynt ar hyn o bryd. Cydnabuodd Elan Closs Stephens tra fod y gwasanaeth is-deitlo 888 yn ceisio denu pobl di-Gymraeg i wyllo'r Sianel roedd ceisio dod o hyd i ffyrdd i bobl di-Gymraeg fod yn gyfranwyr mewn rhaglenni Cymraeg yn fater mwy anodd i'w datrys.

CYFARFOD BUSNES

Cyfarfod gyda'r BBC

Nodwyd bod y cyfarfod rhwng Awdurdod S4C a Chyngor Darlledu Cymru bellach wedi'i ohirio ar gais y BBC. Roedd dyddiadau eraill nawr wedi eu cynnig i'r BBC wedi eu seilio o gwmpas dyddiadau cyfarfodydd Awdurdod S4C ym mis Mehefin a Gorffennaf.

Cynadleddau Gwleidyddol

Adroddodd y Cadeirydd fod holl ddigwyddiadau S4C yng nghynadleddau'r pleidiau gwleidyddol wedi bod yn llwyddiannus.

Cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi trefnu i weld Mr Paul Murphy, AS, ar 5 Ebrill 2001. Pwrpas y cyfarfod oedd i sicrhau bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cadw mewn cyswllt ar ddatblygiadau ar y Papur Gwyn ar Gyfathrebu a'u goblygiadau i S4C.

Cymru'n Creu

Cyfeiriwyd at y ffaith y byddai ail gyfarfod y grwp hwn yn cael ei gynnal yn Aberystwyth ar 23 Mai 2001.

Apêl Elusen S4C

Tynnwyd sylw at y ffaith ei bod yn fwriad i lansio apêl S4C ar ddydd Gwener y Groglith. Soniwyd ei bod ystyriaeth yn cael ei roi i ymestyn cyfnod yr apêl y tro hwn oherwydd credwyd y byddai sefyllfa y clwyf traed a genau yn effeithio ar y gallu i godi arian.

Adroddiad y Prif Weithredwr

Derbyniwyd adroddiad y Prif Weithredwr. Rhoddwyd sylw penodol i'r effaith yr oedd clwy'r traed a genau yn cael ar wasanaeth S4C. Nodwyd bod nifer o raglenni gan gynnwys rhai dramâu, wedi gorfod cael eu gohirio neu eu canslo. Nodwyd hefyd ei fod wedi'i gadarnhau bod Eisteddfod yr Urdd wedi'i chanslo.

Credwyd ei fod hi'n bwysig i'r Sianel geisio darparu rhyw fath o eisteddfod yn hytrach na chynnig dim eisteddfod o gwbl. Ar ôl trafod gyda swyddogion yr Urdd, sefydlwyd bod y seremonïau cadeirio/coroni/fedal rhyddiaith a'r cystadleuthau celf a chreffft dal i fod ar gael. Yn ogystal, roedd ystyriaeth yn cael ei roi i wahodd perfformwyr oedd wedi cyrraedd y llwyfan dros, dyweder, y pum mlynedd diwethaf i gystadlu yn ystod wythnos yr Eisteddfod gan gynnal rhyw 8-9 gystadleuaeth. Y gobaith oedd i geisio cynnig rhywbeth fyddai'n cadw at ethos yr Urdd ond roedd yr opsiynau ar gael i S4C yn gyfyngedig iawn.

Dywedwyd bod yna fygythiad hefyd i Eisteddfod Llangollen. Nodwyd hefyd y byddai penderfyniad ar y Sioe Amaethyddol yn debygol o gael ei gymryd yn gynnar ym mis Ebrill. Soniwyd bod yna broblemau hefyd wedi codi ynglyn â'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd maes yr Eisteddfod eleni ar dir ffarm ac ar hyn o bryd nid oedd yn bosibl i gael mynediad i'r safle i ddechrau ar y gwaith paratoi i fedru gosod i fyny'r pafiliwn, pebyll, ac ati, oherwydd ni ellid symud yr anifeiliaid oddi ar y tir.

Buddsoddwyr Mewn Pobl – Gwobrau TEC De Ddwyrain Cymru

Adroddwyd bod S4C wedi bod yn llwyddiannus wrth ennill gwobr yn y categori 'Ymarfer Rhagorol' ar gyfer cyrff oedd yn cyflogi dros 50 o bobl.

Ceisiadau Nawdd

Adroddodd y Prif Weithredwr ar lafar ar ddau gais am nawdd, fel a ganlyn -

- (a) *BAFTA Cymru* – Roedd cais wedi'i dderbyn oddi wrth BAFTA Cymru yn gofyn os byddai S4C yn cynnig nawdd ar gyfer ei Seremoni Gwobrwyo. Atgoffwyd yr Awdurdod bod S4C wedi cyfrannu'n gyson dros y blynyddoedd tuag at y digwyddiad hwn. Cytunwyd y dylid rhoi nawdd o £6,000 i Seremoni Gwobrwyo BAFTA Cymru.
- (b) *Gwyl Ffilm Ryngwladol Cymru* – Esboniwyd y sefyllfa ddiweddaraf parthed cynlluniau ar gyfer yr wyl i'r dyfodol. Adroddwyd bod yr wyl yn gwneud cais am nawdd ar gyfer swm tebyg i hwnnw a gyfrannodd S4C yn 2000. Cytunwyd y dylid rhoi nawdd o £15,000 i'r wyl Ffilm Ryngwladol ar gyfer y flwyddyn 2001 ac y dylid nodi efallai y byddai cais am arian ychwanegol yn cael ei gyflwyno nes ymlaen yn y flwyddyn.

Adroddiad ar y Gwasanaeth Rhaglenni

Derbyniwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni. Ymledodd y drafodaeth i drafod ymhellach dyheadau'r Awdurdod ar gyfer y gwasanaeth rhaglenni ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Hwn fyddai'r cyfle olaf i gael trafodaeth o'r fath cyn i'r Cyfarwyddwr Rhaglenni a'r comisiynwyr ddechrau ar y gwaith o ystyried y cynigion oedd wedi'u derbyn ar gyfer y rownd gomisiynu ar gyfer 2002-03.

Adroddiad Blynyddol 2000

Ystyriwyd yr amlinelliad bras ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2000. Nododd yr Aelodau y byddai drafft o'r testun llawn yn cael ei roi ger eu bron yn y cyfarfod i'w gynnal ym mis Ebrill.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd neu nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2001.
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol